WG35.5 123

# CAN GOFFADWRIAETHOL,

(BUDDUGOL YN NGHYFARFOD LLENYDDOL SALEM, 1875),

I'R DIWEDDAR

# DAVID LLOYD,

BROWN STREET, MAESTEG.

GANWYD gwrthrych y "Gan" hon mewn ffermdy bychan o'r enw "Cwm," yn mhlwyf Llangeler, yn sir Gaerfyrddin, Ebrill y 5ed., 1823. Enwau ei rieni oeddent Thomas a Mary Lloyd. Symudodd i Maesteg yn 1844, yn 21ain oed. Bedyddiwyd ef yn Bethania, gan y Parch. Mr. Edwards, yr hwn ar y pryd oedd yn weinidog yno, yn y flwyddyn 1846. Priododd yn yr un flwyddyn ag Anne, merch John a Margaret Davies, o blwyf Llanfallteg, sir Gaerfyrddin. Neillduwyd ef i'r "Swydd Ddiaconaidd" yn Eglwys Salem, yn y flwyddyn 1861. Bu farw, Mehefin y 19eg., 1873, yn 50ml. oed. Yr oedd yn nodedig am ei ffyddlondeb a'i weithgarwch crefyddol.

---

Diysgog a chadarn grefyddwr oedd Dafydd,
A gwawr sefydlogwydd yn harddu ei bryd;
Ymdeithiodd ar euraidd rodfaon dyledswydd,
Yn wrol ei gamrau drwy ystormydd y byd;
Dysgleirio'n fwy claerwych a wnelai ei grefydd,
Dan dduon gysgodau trallodion y llawr,
Fel enfys eirianwedd, ar dduaf wybrenydd,
Tra heulwen y nefoedd yn gwŷnu ei gwawr.

X205 311619

Nid fel ei gyfoedion y mynai ymlwybro,
Pan ydoedd gwawr ie'nctyd yn lloni ei bryd,
Ond diwyd ymdrechai, mewn ysbryd diwyro,
I wneuthur pob gorchwyl a ddenai ei fryd;
Fe'i doniwyd yn helaeth a synwyr cyffredin,
Er na cha'dd fanteision dysgeidiaeth oedd fawr,
Parodrwydd ei ysbryd bob amser oedd ddiflin,
Yn ffyddlawn cyflawnai ei ran yn ddidawr.

Yn nghryfder ei ddyddiau, ymroddodd yn ufydd,
I deilwng wasanaeth gwir grefydd y groes,
Ar lwybrau gwirionedd, ei fywyd yn hylwydd,
Gynyddai mewn mawr-lwydd o rinwedd a moes;
Bu'n fwyn dangnefeddwr, oedd dawel ei anian,
A'i fynwes yn ddifrad, a didwyll ei fryd—
Ei dymher hawddgarol, a'i gwnelai yn ddyddan,
Yn serch ei gydnabod, gartrefu yn glyd.

Yn mhob rhyw wasanaeth, dros achos ei Arglwydd,
Un ffyddlon oedd Dafydd—un ufydd a rhwydd,
Ymdrechu yn wylaidd a wnai mewn dystawrwydd
Gan ddiwyd gyflawni pob cyfran o'i swydd;
Un manwl ei sylw, a chraff ei olygon,
A dyfal ymdrechwr o ddoniau diludd,
A'r dewrder cadarnaidd lywyddai ei galon,
Yn llechu dan wisg o wyleidd-dra yn nghudd.

Yn ffyddlon dilynai'r oedfaon crefyddol,
Ar rodfa cniondeb diwyrni fu'i daith;
Bu'n Athraw llafurus yr Ysgol Sabbothol—
Hyfforddi ei deiliaid oedd iddo'n hoff waith;
Nid dibwys amgylchiad oedd ddigon i'w attal,
Rhag myned i heirddion gynteddau ei Dad—
Roedd yma'n cael esgyn uwch troion yr anial,
Yn nghwmni ei frodyr mewn nefol fwynhad.

ydd Ddiaconaidd gyflawnai yn ffyddlon,
Mewn gofal a gweithred dros dymhor oedd faith;
Cywirdeb ei farn a dyngarwch ei galon,
A'i gwnaeth ef yn swyddwr oedd gymhwys i'r gwaith
Nid gwagder hunanol, uchelfryd swyddogol,
A fyddai un amser yn denu ei fryd—
Gofalon eglwysig—gweithgarwch crefyddol—
Hyn fu'r Ddiaconiaeth gyflawnai bob pryd.

Hyfforddwr goleubwyll, a chraff ei olygon,
Canfyddai y rhwystrau yn dyfod o draw,
A rhoddai ei ddoethwych gynghorion yn brydlon
A'r aflwydd wynebai a'i fron yn ddifraw;
Mewn cariad llafurus a gwir ostyngeiddrwydd,
A gofal crefyddol rhagorodd y gŵr,
Pob gorchwyl gyflawnai yn hynaws heb dramgwydd,
Gan ddyfal ymdrechu yn rhwydd a di'stwr.

Ei eiriau difrifol, o'ent orlawn o sylwedd,
A'u nôd a gyrhaeddent bob amser heb ball,
Byr-eiriog y byddai ei araeth gyfanwedd,
A'i gynghor amserol yn gymhwys a chall;
Nid trystfawr siaradwr, ond gweithiwr hŷf ydoedd,
Un cynnil ei eiriau a dystaw ei foes,
Ond siarad yn uchel a wnai mewn gweithredoedd;
A diflin ymdrechion dros grefydd y groes.

Dros lwybrau ei fywyd, ymruthro wnai croesau,
Fel nerthol orlifiant yn dòn ar ol tòn;
'Roedd gwylio'i anwyliaid dan bwys o gystuddiau,
Yn saeth a gyrhaeddai yn ddofn i'w fron;
Ond, tawel ddyoddef a wnaeth ei helbulon,
Cysuron y nefoedd a lanwent ei fryd,
A glwys ymddysgleirio dan gymyl trallodion,
Y byddai ei grefydd, yn lanwedd o hyd.

Croeswyntoedd gauafol fu'n curo ei yspryd,
  Ei gartref fu'n drigfa i gystudd a loes;
Ymfrwydrai yn fynych â chroesau ac adfyd,
  Ond, tawel ymlwybrai yn ngwyneb pob croes;
Amynedd lywyddai ei fynwes gariadlawn,
  Di-rwgnach a dystaw fu'n ngwyneb pob tòn—
Y gwyntoedd difaol a chwythent mor greulawn,
  Ni syflent gadernid diysgog ei fron!

Ond Ow! wele'r dymhestl olaf a'i nerthoedd,
  Yn cadarn ymosod ar Dafydd yn awr;
Trwst 'stormydd marwolaeth a'u grymus fyddinoedd,
  A gurent ei yspryd mewn rhwysedd oedd fawr;
Pa fodd y cyferfydd eu gorwwyllt ruthriadau?
  A ddeil ei wroldeb yn ymchwydd y don?
Ha! gwena yn dawel, yn ngrym ei churiadau,
  A'i bwys ar Waredwr, gwyneba hwy'n llon!

Yn iach, i ti gyfaill, cywirfryd a ffyddlon,
  Newidiaist yr anial am wynfyd ac hedd,
A ninau yn awr wrth goffhau dy ragorion,
  Dywalltwn ein dagrau yn brudd ar dy fedd;
Nos brudd o alar a gefaist o'r ddaiar,
  Ond torodd y nefoedd ei gwawr ar dy ffydd,
A'th enaid mewn môr o oleuni gor-lachar,
  Ddiflanodd o'n golwg i wlad bythol-ddydd!

IEUAN DYFED.

Griffiths & Sons, Printers, &c., Cwmavon.